Stori Sunita

Mae Sunita'n 55 mlwydd oed ac fe gafodd hi ysgariad cwpl o flynyddoedd yn ôl, hi fyddai'r person cyntaf i ddweud bod ei bywyd wedi newid yn sylweddol ers hynny. Un o'r pethau mwyaf pwysig mae hi wedi ei ddarganfod yw, er gwaethaf ei phryderon cychwynnol, mae hi wedi gallu dod i'r afael â rheoli ei harian ar ei phen ei hun.

"Rwyf yn gweithio fel derbynnydd yn y feddygfa leol ond pan roeddwn yn iau cymerais amser i ffwrdd o'r gwaith i aros adref i fagu fy mlant, Arun ac Aisha. Pan wnaeth fy ngŵr a finnau wahanu roeddwn yn poeni am arian ac yn y tymor hir, p'un ai fyddaf â digon i ymdopi pan fyddaf yn hŷn.

"Cefais nifer o nosweithiau di-gwsg, yn y diwedd eisteddodd fy ffrindiau mi i lawr a dweud wrthaf i gymryd materion i mewn i fy nwylo fy hun. Roedd yn frawychus i gychwyn, ond yna es i ar-lein i www.direct.gov.uk/dyfodolgwell a cefais wybod nid oes rhaid trefnu eich arian ar gyfer ymddeoliad fod yn gymleth. Roedd gan y wefan gamau syml y gallwn eu dilyn i ddechrau cynllunio ar gyfer fy ymddeoliad nawr."

Beth wnaeth Sunita ei ddarganfod

"Roeddwn eisiau edrych i mewn i fy Mhensiwn y Wladwriaeth yn gyntaf. Cefais wybod fod y swm o Pensiwn y Wladwriaeth a gewch yn dibynnu ar faint o flynyddoedd cymhwyso o gyfraniadau Yswiriant Gwladol rydych wedi'u talu.

"Roeddwn yn bryderus iawn yn y dechrau oherwydd fy mod wedi treulio'r holl flynyddoedd adref yn edrych ar ôl Arun ac Aisha, ond yna cefais wybod fy mod wedi fy nghredydu â cyfraniadau Yswiriant Gwladol am y cyfnod hwnnw. Felly, roedd fy Mhensiwn y Wladwriaeth wedi ei warchod yr holl amser, ac nid oeddwn wedi sylweddoli! Roeddwn wedi adeiladu treuan o Bensiwn y Wladwriaeth sylfaenol llawn yn barod, sydd yn newyddion da.

"Hefyd cefais wybod fod gen i rhai blynyddoedd eraill sydd ddim yn cyfrif tuag at fy Mhensiwn y Wladwriaeth ond efallai gallaf ddefnyddio cofnod Yswiriant Gwladol fy nghyn-ŵr i wella fy Mhensiwn y Wladwriaeth sylfaenol. Mae'n debyg, os ydych wedi ysgaru neu os yw eich partneriaeth sifil wedi ei diddymu, efallai gallwch gynyddu eich Pensiwn y Wladwriaeth sylfaenol drwy ddefnyddio cofnod eich cyn-bartner. Gallwch wneud hyn os oes gan eich cyn bartner gofnod Yswiriant Gwladol dda a nad ydych yn ail-briodi neu ffurfio partneriaeth sifil newydd cyn i chi gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Rwyf angen gwybod mwy am hyn, felly rwy'n mynd i edrych i mewn iddo yn iawn.

"Roedd yn gwneud i mi deimlo'n llawer mwy hyderys unwaith roeddwn wedi dod i'r afael a'r pethau syflaenol, felly mi es yn ôl i www.direct.gov.uk/dyfodolgwell a defnyddio rhai o'r teclynau ar-lein fel yr 'amlinellydd Pensiwn y Wladwriaeth' a 'Waled y Dyfodol', sy'n eich helpu i weithio allan faint fydd rhaid i chi roi i un ochr ar gyfer pan fyddwch yn ymddeol. Roeddent yn hawdd i'w defnyddio ac fe roeddent yn help i mi ddeall fy opsiynau

"Nawr rwy'n sylweddoli nid yw'n mor anodd ag yr oeddwn yn meddwl i gynllunio a chynilo ar gyfer fy ymddeoliad a mae yna ddigon o wybodaeth ddefnyddiol iawn ar gael os ydych yn gwybod ble i gychwyn."

Mae llawer mwy o wybodaeth ar-lein yn www.direct.gov.uk/dyfodolgwell

Cysylltwch â ni am fod yn bartner:
pensions.planning@dwp.gsi.gov.uk

DWP Adran Gwaith a Phensiynau